CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Is-lywydd y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (HASS) - Disgrifiad o'r rôl

Mae'r Is-lywydd yn un o'r pum Swyddog Anrhydeddus allweddol yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru. Maen nhw'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo ein strategaeth, cynllunio gweithgareddau a sicrhau llwyddiant yr elusen yn y tymor hir. Mae'r Is-lywydd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion eraill – y Llywydd, yr Is-lywydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Ar lefel staff, cânt eu cefnogi gan y Prif Weithredwr, y Clerc, Pennaeth Ecwiti ac Ymgysylltu a Swyddog y Gymrodoriaeth. Mae'r Is-lywydd yn eistedd ar Gyngor (bwrdd ymddiriedolwyr) y Gymdeithas a phwyllgorau allweddol eraill.

**Cyfnod yn y swydd:**
Bydd yr Is-lywydd yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd y gymdeithas, gan ddechrau pan ddaw ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben ar 20 Mai 2026. Gall yr Is-lywydd geisio cael ei ail-ethol am ail gyfnod o dair blynedd, ac ar ôl hynny ni fydd yn gymwys i gael ei ail-ethol.

**Prif Gyfrifoldebau:**

- Bod yn llysgennad gweladwy a gweithredol ar gyfer HASS a materion ymchwil cysylltiedig o fewn y Gymrodoriaeth ac yn allanol, gan ymgysylltu â sefydliadau, cymunedau a chyrff perthnasol a chefnogi'r perthnasoedd a'r cynghreiriau hynny, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Chwarae rhan flaenllaw yn y broses ethol flynyddol ar gyfer Cymrodyr newydd, yn enwedig ar gyfer enwebeion HASS ac ICAP. Mae hyn yn cynnwys:
    - Cyd-gadeirio Pwyllgor y Gymrodoriaeth, sy'n goruchwylio pob agwedd ar y broses ethol, a hwyluso gwaith y pwyllgorau craffu.
    - Cefnogi penodi a sefydlu aelodau newydd o Bwyllgor Craffu HASS ac ICAP.
    - Cysylltu a chyfarfod â chadeiryddion ac aelodau annibynnol pwyllgorau craffu i adolygu'r broses graffu ac argymell enwebiadau HASS ac ICAP.
    - Rhoi adborth i enwebeion aflwyddiannus HASS ac ICAP ar ôl cwblhau'r broses ethol.
- Cyflawni dyletswyddau'r Llywydd yn ei absenoldeb a chyflawni dyletswyddau eraill a all gael eu pennu gan y Llywydd neu'r Cyngor o bryd i'w gilydd.' [rheoliad 5.1].
- Llywyddu, yn ôl yr angen, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, mewn Cyfarfodydd Cyffredinol eraill a allai gael eu cynnull, a hefyd, yn ôl yr angen, mewn cyfarfodydd uwch bwyllgorau a sefydlir gan y Cyngor sy'n cynnwys cyfarfodydd y Cyngor (pedwar cyfarfod 2 awr bob blwyddyn), Pwyllgor y Gymrodoriaeth (pedwar cyfarfod 1.5 awr bob blwyddyn), y Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu (dau gyfarfod 1.5 awr bob blwyddyn) a'r Pwyllgor Gwaith (deg cyfarfod 1-1.5 awr y flwyddyn).

- Cyfrannu at bennu cyfeiriad strategol y Gymdeithas gan sicrhau ei bod yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol ym myd dysg ac yn cynnig sylwadau a chyngor awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol ar y lefelau uchaf ar faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru.
- Bydd yr Is-lywydd yn cyfrannu at bolisi ac mae'n gyfrifol am gynnull Cymrodyr (gyda chefnogaeth gan y staff), sydd â gwybodaeth arbenigol benodol, er mwyn ymateb i ymgyngoriadau ffurfiol gan gyrff llywodraethol ac anllywodraethol. Gall hyn olygu cysylltu ag academïau cenedlaethol eraill a sectorau ymchwil y DU ac Ewrop.
- Cychwyn cyfres o ddarlithoedd a symposia mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol, gyda chymeradwyaeth y Cyngor a chefnogaeth y Staff, er mwyn hyrwyddo ymchwil ac ysgolheictod ledled Cymru.
- Cymryd rhan yn rhaglen ddigwyddiadau'r Gymdeithas, gan gynnwys mynychu darlithoedd, seminarau a chyfarfodydd eraill. Bydd angen dewis a dethol y rhai mwyaf priodol o blith y rhain.
- Cynorthwyo a chefnogi staff y Gymdeithas yn ôl yr angen, e.e. asesu ceisiadau am grantiau, cadeirio gweithdai, ac ati.
- Ymddwyn bob amser gyda'r uniondeb angenrheidiol i gynnal hyder y cyhoedd yn y rôl, y Gymdeithas ac ym mywyd academaidd a deallusol Cymru.

**Aelodaeth ex-officio:**

- Y Cyngor (Bwrdd yr Ymddiriedolwyr)
- Y Pwyllgor Gwaith
- Pwyllgor y Gymrodoriaeth (Cyd-gadeirydd)
- Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu

Gweler yma am ddisgrifiad o'r pwyllgorau hyn.